

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.18 Gyrwyr Gwirfoddol



Gyrwyr Gwirfoddol a gwirfoddolwyr sy'n gyrru

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ymwneud â 'gyrwyr gwirfoddol', hy gwirfoddolwyr sy'n gwirfoddoli i fod yn yrwyr. Serch hynny, bydd gwirfoddolwyr eraill efallai'n defnyddio eu car i yrru yn ôl ac ymlaen o'u lleoliad gwirfoddoli neu yn ystod eu gwirfoddoli. Ar gyfer y gwirfoddolwyr hyn mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yswiriant yn mynnu bod gan y gyrrwr warchodaeth 'ddomestig, cymdeithasol, plaser'. Os ydynt yn defnyddio eu car i ee fynd i gyfarfod ar ran y mudiad maent yn gwirfoddoli gydag ef, efallai y bydd angen i wirfoddolwyr ychwanegu 'gwarchodaeth fusnes'. Mae'n arfer da i'r holl wirfoddolwyr sy'n defnyddio eu car yn ystod eu gwirfoddoli roi gwybod i'w cwmni yswiriant. Mae [llythyr enghreifftiol](#) wedi'i ddarparu yn Atodiad 1.

Ceir a bysiau mini

Mae'r wybodaeth yma'n ymwneud â'r gofynion ar gyfer ceir ac nid bysiau mini. Nid yw cerbyd a chanddo mwy na naw o seddi yn rhwym wrth ddeddfwriaeth rhannu ceir ac mae'n gweithredu dan drwydded arbennig. Gallwch gael gwybod mwy gan y [Gymdeithas Cludiant Cymunedol](#) yng Nghymru.

Diogelwch gyrrwyr a cherbydau

Archwiliadau ar gyfer gyrrwyr gwirfoddol

- Dylai trwyddedau fod yn llawn ac nid dros dro. Dylid archwilio trwyddedau gyrru pan fydd y gwirfoddolwr yn cofrestru i wirfoddoli ac yn rheolaidd ar ôl hynny, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gan y gwirfoddolwr ddim euogfarnau gyrru diweddar na difrifol. Os oes gan y gyrrwr bwyntiau cosb ar ei drwydded, efallai y bydd y mudiad yn dymuno gosod safon sylfaenol o ran beth fyddai'n dderbyniol ac yn annerbyniol.
- Efallai y bydd ar fudiadau eisiau gosod gofyniad sylfaenol o ran profiad gyrru.
- Mae rhai mudiadau wedi mynegi pryderon ynghylch ffitrwydd gwirfoddolwr i yrru, yn enwedig gan fod cyflwr iechyd rhywun yn gallu newid dros amser. Os bydd iechyd (neu feddyginiaeth) rhywun yn peri risg i'w gyrru, bydd eu meddyg teulu yn egluro hyn iddynt. Yn ôl y gyfraith, **rheid i'r unigolyn roi gwybod i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)** os ydynt yn dioddef cyflwr meddygol neu anabledd a all effeithio ar eu gyrru, neu os ydynt yn datblygu cyflwr neu anabledd newydd, neu os bydd un sydd eisoes ganddynt wedi gwaethygu ers iddynt gael eu trwydded yn gyntaf. Ar ôl i'r gyrrwr roi gwybod i'r DVLA bydd Grŵp Meddygol y Gyrwyr yn y DVLA yn penderfynu ar ffitrwydd rhywun i yrru.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd gyrrwyr gwirfoddol sy'n helpu i gludo pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, yn gymwys i gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Pan fo'r gyrrwr yn cludo oedolyn i, o neu rhwng lleoedd lle mae'n cael gofal iechyd, gofal personol neu ofal cymdeithasol oherwydd oedran, salwch neu anabledd yna byddai hyn yn ateb y diffiniad o weithgaredd rheoledig, sef gwaith na chaiff rhywun sydd wedi'i roi gan y GDG ar y rhestr wahardd oedolion ei wneud. Pan fo unigolyn yn gyrru cerbyd sydd ond yn cael ei ddefnyddio i gludo plant pan fo hyn yn *aml neu'n ddwys byddai'n ateb y diffiniad o weithgaredd rheoledig, sef gwaith na chaiff rhywun sydd wedi'i roi gan y GDG ar y rhestr wahardd plant ei wneud.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â phrosesau diogelu a recriwtio yn fwy diogel, cysylltwch â WCVA - <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/criminal-records-checks?seq.lang=cy-GB>

* Aml – unwaith yr wythnos neu'n amlach

Dwys – 4 diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod

Archwiliadau ar y cerbyd

- Dylid gofyn am dystysgrif MOT gan y gyrrwr gwirfoddol os yw'r cerbyd yn hŷn na thair oed.
- Mae angen i'r mudiad fod yn weddol ffyddiog bod y cerbyd yn ddiogel. Gallwch wneud hyn drwy edrych ar gofnodion gwasanaeth ac MOT.
- Rhaid i gerbydau fod â gwregysau diogelwch yn y blaen ac yn y cefn a dylai'r holl deithwyr wisgo gwregysau diogelwch. Mae gyrrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod plant dan 14 oed yn cael eu hatal yn y ffordd gywir. Mae teithwyr dros 14 oed yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau eu bod yn gwisgo gwregys diogelwch.
- Gallai ceir chwaraeon, faniau a cherbydau oddi-ar-y-ffordd fod yn anaddas ar gyfer cludo teithwyr. Rhaid iddi fod yn hawdd i deithwyr fynd i mewn ac allan o'r cerbyd. Gellir paru cleientiaid â'r gwirfoddolwr o ran y math o gerbyd sydd ar gael.

Yswiriant

- Os yw'r mudiad yn berchen ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio, yna mae'n gyfrifol am drefnu yswiriant. Os yw'r gwirfoddolwr yn berchen ar y cerbyd, yna mae ef neu hi yn gyfrifol am drefnu'r yswiriant priodol.
- Yn gyfreithiol, dim ond yswiriant car trydydd parti sydd ei angen, ond mae'n arfer da i'r gyrrwr fod ag yswiriant cynhwysfawr. Dylai'r mudiad fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn sicrhau bod ganddo warchodaeth ar gyfer unrhyw hawliadau na ddônt dan yr yswiriant car. Hefyd, cofiwch fod angen yswirio eich gwirfoddolwyr a'ch cleientiaid ar gyfer gweithgareddau pan nad yw'r cerbyd yn symud, megis pan fydd y cleient yn mynd i mewn neu allan o'r cerbyd neu'n croesi'r ffordd.
- Rhaid i yrwyr sy'n gyrru eu ceir eu hunain roi gwybod yn ysgrifenedig i'w cwmni yswiriant y byddant yn gyrru mewn rhinwedd wirfoddol, neu gallai'r polisi fod yn annilys, sy'n golygu bod y gyrrwr yn atebol yn bersonol am unrhyw ddifrod neu anafiadau o ganlyniad i ddamwain. Mae [llythyr enghreifftiol](#) wedi'i awgrymu.

- Rhaid i gynlluniau ceir beidio â thalu dim mwy i'r gyrwyr na threuliau a geir mewn gwirionedd, oherwydd gall annilysu'r polisi yswiriant os yw'r gyrwyr yn gwneud 'elw'.

Yswiriant ar gyfer torri i lawr

Argymhellir bod gennych yswiriant ar gyfer torri i lawr, yn enwedig pan fyddwch yn cludo defnyddwyr gwasanaeth.

Ad-dalu milltired

I gael rhagor o wybodaeth am ad-dalu milltired a threuliau gwirfoddolwyr, darllenwch daflen wybodaeth 4.13 Treuliau Gwirfoddolwyr.

Hyfforddiant

Dylid hyfforddi gyrwyr os ydynt yn cludo pobl hŷn, pobl anabl neu blant. Efallai y bydd angen darparu hyfforddiant mewn codi a gollwng teithwyr. Dylid darparu hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o anabled a gofal cwsmeriaid.

Egwyl

Dylai gyrwyr orffwys am o leiaf 15 munud bob 2 awr yn ystod siwrnai, a rhwng siwrneiau.

Manylion Adnabod

Gall mudiadau ystyried darparu Manylion Adnabod i yrwyr gwirfoddol er mwyn i'r bobl maent yn eu codi allu eu hadnabod yn hawdd. Dylai'r manylion adnabod gynnwys y prif rif ffôn ar gyfer y cynllun gyrru gwirfoddol.

Alcohol

Ni ddylai gyrwyr yfed dim alcohol cyn siwrnai. Mae alcohol yn aros yn y corff am gryn amser. Mae hwn yn fater gallwch chi ei gynnwys yn ystod hyfforddiant ac efallai y bydd arnoch eisiau cael polisi clir ar hyn.

Ysmygu

Dylid cynghori gwirfoddolwyr sy'n darparu cludiant yn eu car eu hunain na chaniateir ysmygu yn y cerbyd tra maent yn cludo unigolyn.

Bagiau

Dylid rhoi bagiau a neges yng nghist y car neu eu cadw'n ddiogel i osgoi anafiadau petai'n rhaid i'r cerbyd stopio'n sydyn. Serch hynny, dylai gyrwyr gwirfoddol y gall eu hiechyd eu hatal rhag codi bagiau neu roi cadeiriau neu gymorthion cerdded i gadw gael eu paru'n ofalus gan reolwr y cynllun â chleientiaid priodol.

Anifeiliaid Anwes

Mae modd cludo anifeiliaid anwes gyda chleientiaid, yn ôl disgrisiwn y gyrrwr, ar yr amod nad yw'r anifail yn effeithio ar yrru'r cerbyd yn ddiogel. Dylid cludo cŵn tywys pobl ddall a phobl fyddar yn y cerbyd, oni bai fod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

Nifer y seddi

Peidiwch byth â chludo mwy o bobl nag y mae'r gwneuthurwr a'r yswiriwr yn datgan y caniateir eu cludo yn y cerbyd.

Damweiniau, salwch neu anafiadau

Os bydd damwain, dylid rhoi gwybod i'r gwasanaethau brys a'r mudiad ar unwaith a dylid darparu manylion. Os bydd cleient yn mynd yn sâl neu'n cael anaf yn ystod siwrnai, yna dylai'r gyrrwr ofyn am gymorth meddygol ar unwaith.

Gyrru bws mini

Cynllun asesu a hyfforddi, a gydnabyddir yn genedlaethol, ar gyfer gyrrwyr bysiau mini, ceir, a Cherbydau Amlbwrpas yn y sectorau gwirfoddol a dielw yw Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrrwyr Bysiau Mini (MiDAS). Mae MiDAS yn darparu hyfforddiant i leihau traul a gwisgo ar y cerbyd a sicrhau cludo unigolion yn ddiogel. Mae tystysgrif MiDAS yn para 4 blynedd ac argymhellir cwrs adnewyddu ar ddiwedd cyfnod y dystysgrif. Mae [rhagor o wybodaeth](#) ar gael gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol.

Rhagor o wybodaeth

Gweler hefyd daflen wybodaeth 4.13 Treuliau gwirfoddolwyr

Association of British Insurers – gwybodaeth ar [ofynion gwahanol gwmniau yswiriant](#) o ran yswiriant i yrwyr gwirfoddol

Cyllid a Thollau EM - gyrwyr gwirfoddol
www.hmrc.gov.uk/mileage/volunteer-drivers.htm

RoSPA Gyrru fel Gwaith
www.rospa.com/roadsafety/info/workspeed.pdf

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - Gyrru yn y Gwaith
www.hse.gov.uk/pubns/indg382.pdf

Y Gymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru
www.ctauk.org/in-your-area/contact-details-cymru.aspx

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Atodiad 1 – Llythyr enghrefftiol ynghylch Yswiriant Car Gwirfoddolwr

ENW
CYFEIRIAD
DYDDIAD

I (Cwmni Yswiriant)

YNGHYLCH (Rhif y Polisi)

Annwyl Syr/Madam

Rwyf yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith gwirfoddol ac, o bryd i'w gilydd, byddaf yn defnyddio fy ngherbyd i gludo teithwyr neu i gyflawni dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn. Byddaf yn cael lwfans milltired am y siwrneiau hyn er mwyn talu am gostau rhedeg fy ngherbyd yn unol ag Adran 1(4) Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981, sy'n fy eithrio o gyfreithiau trwyddedu Cerbydau Gwasanaeth Teithwyr a Cherbyd Hacni / Car Llog Preifat.

Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi gadarnhau bod fy mholisi yn fy yswirio ar gyfer gyrru gwirfoddol o'r fath - defnyddiwch y bonyn isod.

A fydddech hefyd gystal â chadarnhau bod fy mholisi yswiriant yn indemnio'r asiantaethau rwyf yn gwirfoddoli iddynt yn erbyn hawliadau trydydd parti sy'n codi o ddefnyddio fy ngherbyd ar gyfer gwaith gwirfoddol o'r fath.

Yn gywir

(Deilydd y Polisi)

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB
Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626 ymholiadau@mantellgwynedd.com
Ffacs: 01286 678430 www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 10/01/2017



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk